

## **Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Ile rhoddwyd rhybudd)**

**Practis Deintyddol Grove  
(Ystrad Mynach); Bwrdd  
Iechyd Prifysgol Aneurin  
Bevan**

**Dyddiad yr Arolygiad: 7 Mawrth  
2017**

**Dyddiad Cyhoeddi: 8 Mehefin  
2017**

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**E-bost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan** [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Crynodeb .....	4
4.	Canfyddiadau .....	5
	Ansawdd profiad y claf .....	5
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol .....	8
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	13
5.	Y Camau Nesaf.....	15
6.	Methodoleg .....	16
	Atodiad A.....	18

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o Bractis Deintyddol Grove yn 23 Heol Penallta, Ystrad Mynach, Hengoed, CF82 7AN, ar 7 Mawrth 2017.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Practis Deintyddol Grove yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol ar ôl rhoi rhybudd, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut y mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn ffafrio darparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Grove Dental Practice provides services to patients in the Ystrad Mynach area of South Wales. The practice forms part of dental services provided within the area served by Aneurin Bevan University Health Board.

Mae Practis Deintyddol Grove yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys pedwar deintydd, un hylenydd, pum nyrs ddeintyddol, a thri aelod o staff y dderbynfa (y mae un ohonynt hefyd yn gydlynnydd y practis).

Darperir ystod o wasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol preifat.

### 3. Crynodeb

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod Practis Deintyddol Grove yn cyflenwi gofal diogel ac effeithiol.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir.
- Roedd cofnodion cleifion yn drylwyr ac wedi'u cofnodi'n dda.
- Dangosodd y staff broses drwyadl ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol.
- Roedd dogfennau a gwybodaeth ar gael a oedd yn dangos bod offer pelydr-X a chyfarpar dadheintio'n cael eu defnyddio â'r nod o hyrwyddo diogelwch staff a chleifion.
- Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan uwch staff a thîm y practis.

Rydym yn argymhell y gallai'r practis wella'r canlynol:

- Roedd angen i ddeintyddion wella rhai agweddau ar eu proses o gadw cofnodion er mwyn sicrhau cysondeb o fewn y practis.
- Roedd angen adolygu rhai polisiau a gweithdrefnau.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd profiad y claf*

**Gwelsom fod cleifion a oedd yn ymweld â'r practis yn cael eu trin ag urddas, parch a charedigrwydd gan dîm y practis. Dywedodd cleifion a roddodd sylwadau eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth roeddent wedi'i dderbyn.**

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a oedd yn cael eu darparu. Gwnaethom dderbyn cyfanswm o 17 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

*"Mae'r practis yn rhagorol, ac mae'r holl staff yn groesawgar ac yn rhoi tawelwch meddwl. Mae'r defnydd o dechnoleg, megis negeseuon testun i atgoffa am apwyntiadau, i'w groesawu."*

*"Deintyddfa a staff ardderchog."*

*"O'r cyfarchiad cyntaf pan fyddwch chi'n cyrraedd i'r driniaeth a'r gofal yr ydym ni'n eu cael – alla i ddim eu canmol ddigon."*

*"Mae'r holl staff yn fy nghroesawu ac yn cynnig triniaethau rhagorol."*

### **Cadw'n iach**

Gwelsom fod amrywiaeth o wybodaeth ynglŷn â hyrwyddo iechyd ar gael i gleifion yn y practis, er mwyn helpu i hyrwyddo'r angen iddynt ofalu am eu hylendid ac iechyd eu ceg eu hunain.

Roedd gwefan y practis hefyd yn rhoi cyngor ychwanegol ynghylch triniaethau deintyddol i blant a chleifion gorbryderus ac ofnus, ymhlith pynciau deintyddol eraill mwy cyffredinol.

Yn ddieithriad, dywedodd yr holl gleifion wrthym eu bod yn credu eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth ddeintyddol.

### **Gofal gydag urddas**

Gwelsom fod yr ymgysylltiad rhwng y cleifion a'r staff yn gyfeillgar, yn broffesiynol ac yn barchus.

Dywedodd pob claf a ddychwelodd holiadur wrthym ei fod yn fodlon iawn â'r gofal a dderbyniwyd. Ychwanegodd rhai cleifion eu sylwadau eu hunain a oedd yn dangos lefel eu boddhad. Dywedodd un claf wrthym fod "*y Grove yn cynnig gwasanaeth gwych*".

Roedd y practis yn darparu amrywiaeth o driniaethau deintyddol preifat a thriniaethau deintyddol y GIG. Roedd gwybodaeth am brisiau ar gyfer triniaethau deintyddol preifat ar gael i'w gweld yn yr ardal aros, yn ogystal â chostau am driniaethau deintyddol y GIG. Roedd hyn yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth am faint y gallai eu triniaeth ei chostio.

Roedd gwybodaeth gyffredinol am y practis ar gael ar wefan y practis a hefyd mewn taflen wybodaeth practis, a oedd ar gael i gleifion ei darllen a mynd â hi o'r manau aros.

### **Gofal amserol**

Canfuom fod y practis yn gwneud ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiaduron wrthym nad oeddent wedi profi oedi o ran cael eu gweld gan ddeintydd ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Dywedodd y rhai a oedd wedi profi oedi mai ychydig iawn o oedi yn unig oeddent wedi'i brofi a bod y practis wedi ymddiheuro am unrhyw anghyfleustra. Dywedwyd wrthym y byddai cleifion yn cael eu hysbysu am unrhyw oedi i'w hapwyntiadau gan y derbynnydd a chynigir apwyntiadau eraill pe bai angen.

Roedd y practis hefyd yn defnyddio system neges destun i atgoffa cleifion am amser a dyddiad eu hapwyntiad.

Roedd rhif ffôn cyswllt y tu allan i oriau ar gael i gleifion pe bai angen triniaeth ddeintyddol arnynt ar frys. Roedd y rhif ffôn ar gael drwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys wedi'i arddangos ger drws blaen y practis, ar neges peiriant ateb y practis, yn nhaflen wybodaeth y practis, ac ar wefan y practis.

### **Gofal unigol**

Roedd gan y practis drefniadau ar waith i sicrhau y gallai cleifion ag anawsterau symudedd gael mynediad at ei wasanaethau. Roedd y practis yn defnyddio dau lawr mewn adeilad dau lawr. Roedd un ystafell driniaeth ar y llawr gwaelod a dwy ystafell driniaeth ar y llawr cyntaf.

Sicrhaodd y practis fod gwybodaeth ar gael i gleifion am sut i leisio pryder (cwyn) ac roedd systemau ar waith i gleifion roi adborth.



Gwelsom fod gan y practis weithdrefn gwyno ysgrifenedig. Roedd gwybodaeth i gleifion am sut i leisio pryder (cwyn) wedi'i harddangos yn y dderbynfa ac yn ystafelloedd aros y practis. Argymhellwyd y dylid cynnwys manylion cyswllt llawn AGIC yn y weithdrefn gwyno er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau. Cytunodd y practis i wneud hyn.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i weithdrefn gwyno'r practis gynnwys manylion cyswllt llawn Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.***

Dywedwyd wrthym mai ychydig iawn o gwynion (ysgrifenedig) ffurfiol yr oedd y practis wedi'u derbyn. Dangoswyd proses ar gyfer cynnal cofnodion manwl o gwynion llafar ac ysgrifenedig, gan alluogi'r practis i adolygu cwynion, cymryd camau i ddatrys unrhyw broblemau, a rhoi adborth yn briodol i gleifion.

Roedd gan y practis flwch awgrymiadau cleifion ym manau aros y practis, a oedd yn caniatáu i gleifion roi adborth ad hoc a dienw ynglŷn â'r gofal a'r driniaeth a ddarparwyd iddynt. Gwelsom hefyd fod y practis wedi cynnal arolwg boddhad cleifion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Gwelsom ddadansoddiad manwl o ganlyniadau'r arolwg a chynllun gweithredu ar gyfer y practis a oedd yn ceisio mynd i'r afael ag unrhyw faterion a ddaeth i'r amlwg.

## ***Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol***

**Gwelsom fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Gwelsom fod adeilad y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, y tu mewn a'r tu allan.**

**Roedd cofnodion cleifion yn fanwl ac yn dangos bod gofal a thriniaeth wedi cael eu cynllunio i hyrwyddo diogelwch a lles cleifion.**

**Dangoswyd proses drwyadl ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol.**

**Roedd dogfennau a gwybodaeth ar gael i ddangos bod yr offer pelydr-X a'r cyfarpar dadheintio'n cael eu defnyddio mewn modd diogel.**

### **Gofal diogel**

Canfuom fod gan y practis drefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a phobl sy'n ymweld ag ef.

Roedd y practis ar fin cwblhau proses ailwampio ac roedd y cyfleusterau a'r cyfarpar yn fodern ac yn newydd. Yn ystod taith o amgylch yr adeilad, gwelsom fod pob ardal yn lân ac yn daclus heb unrhyw beryglon amlwg.

Gwelsom fod offer diogelwch tân ar gael mewn gwahanol fannau o amgylch y practis a gwelsom dystiolaeth bod gan y practis gontract ar waith i wasanaethu'r offerynnau hyn bob blwyddyn i sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn.

Gwelsom fod Profion Dyfeisiau Cludadwy wedi cael eu cynnal ar gyfarpar trydanol y practis o fewn y 12 mis diwethaf, i sicrhau bod yr offer yn ddiogel i'w defnyddio.

Gwelsom fod asesiadau risg ysgrifenedig manwl wedi cael eu cwblhau a oedd yn nodi peryglon posibl a chamau i leihau risg.

Roedd contract ar waith ar gyfer symud a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) yn ddiogel a gynhyrchir gan y practis. Gwelsom fod gwastraff peryglus yn cael ei storio'n ddiogel wrth aros i gael ei gasglu gan y cwmni contractwyr. Roedd gwastraff nad yw'n beryglus (gwastraff domestig) yn cael ei gasglu trwy drefniadau â'r cyngor sir lleol. Gosodwyd offer gwahanu amalgam er mwyn tynnu gronynnau amalgam (math o sylwedd deintyddol sy'n cynnwys mercwri) a geir mewn llenwadau deintyddol o ddŵr gwastraff cyn cael gwared arnynt yn ddiogel.

Gwnaethom edrych ar yr holl gyfleusterau clinigol (ystafelloedd triniaeth) yn y practis, a oedd wedi'u hailwampio'n ddiweddar. Roedd y rhain yn fodern, yn lân ac yn daclus. Roedd y lloriau a'r arwynebau yn yr ystafelloedd triniaeth yn hawdd eu glanhau er mwyn lleihau croes-heintio.

Gosodwyd ystafell ddadheintio ar wahân, ac roedd yn cydymffurfio â'r egwyddorion a nodwyd yn nogfen ganllaw Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1).<sup>1</sup> Ymddangosai fod y cyfarpar sterileiddio mewn cyflwr da wrth i ni ei arolygu. Roedd dau beiriant awtoclaf<sup>2</sup> yn cael eu defnyddio ac roedd tystysgrifau gosod/archwilio ar gael a oedd yn dangos eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom fod gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal a bod cofnodion yn cael eu cadw ar gyfer profion ar offer glanhau a sterileiddio, fel yr argymhellir gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, i ddangos eu bod yn parhau i fod yn ddiogel i'w defnyddio.

Canfuom fod y practis yn glanhau offer deintyddol â llaw cyn eu prosesu trwy'r peiriant awtoclaf. Dangosodd y staff broses ddadheintio drylwyr a gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod y staff wedi mynychu hyfforddiant ar ddadheintio.

Er bod glanhau â llaw yn ddull derbyniol o lanhau offer deintyddol, gwnaethom argymhell y gallai'r practis o bosibl ystyried cyflwyno dull glanhau awtomataidd, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Cytunodd y practis i ystyried gwneud hyn.

Roedd yr offer yn cael eu cadw mewn bagiau wedi'u selio er mwyn atal croes-heintio. Roedd y dyddiadau ar gyfer defnyddio neu ailbrosesu offer (eu glanhau a'u sterileiddio) wedi cael eu cofnodi ar y pecynnau yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Roedd y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau yn ddiweddar i nodi meysydd i'w gwella a'u datblygu fel rhan o'r gwaith monitro cyffredinol ar gyfer sicrhau ansawdd. Gwnaethom argymhell y gallai'r practis fod eisiau ystyried defnyddio'r offeryn archwilio sydd wedi'i alinio'n benodol â Memorandwm

---

<sup>1</sup> Mae dogfen [Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 \(Diwygiad 1\)](#) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

<sup>2</sup> Siambr pwysedd yw peiriant awtoclaf a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau trwy orfodi ager dirlawn pwysedd uchel arnynt.

Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn y dyfodol fel rhan o'u gweithgarwch i sicrhau ansawdd. Cytunodd y practis i wneud hyn.

Gwelsom fod cyfarpar a chyffuriau ar gael i'w defnyddio pe bai argyfwng gyda chlaf (llewygu). Gwelsom hefyd gofnodion a oedd yn dangos bod y cyffuriau a'r offer wedi cael eu gwirio'n rheolaidd, yn unol â'r safonau a osodwyd gan y Cyngor Dadebru (DU),<sup>3</sup> i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn ddiogel i'w defnyddio pe bai eu hangen. Gwelsom gofnodion hyfforddi a oedd yn dangos bod yr holl staff wedi diweddarau eu hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd.

Daethom i'r casgliad fod gan y practis drefniadau ar waith i ddefnyddio offer radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel. Mae hyn am fod y dogfennau a'r wybodaeth ofynnol ynglŷn â defnyddio'r offer pelydr-X yn ddiogel ar gael ac yn gyfredol. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis amlygu'r ffaith fod y practis yn defnyddio cyfarpar pelydr-X ym mhob ystafell driniaeth, gan ddefnyddio cymorth gweledol. Cytunodd y practis i wneud hyn.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r practis sicrhau bod cliwiau gweledol yn cael eu defnyddio i'w gwneud yn eglur bod cyfarpar pelydr-X yn cael ei ddefnyddio mewn ystafelloedd triniaeth.***

Gwelsom dystysgrifau hyfforddi a oedd yn dangos bod y staff i gyd wedi diweddarau eu hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio, a'u bod yn bodloni'r canllawiau a amlinellir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Gwelsom fod archwiliadau o ansawdd delweddu pelydr-X wedi cael eu cwblhau'n rheolaidd fel rhan o'r gwaith monitro ar gyfer sicrhau ansawdd. Mae'r archwiliadau hyn yn nodi problemau posibl wrth gynnal sganiau pelydr-X, ac yn dangos lle y dylid gwneud gwelliannau os oes angen.

Roedd gweithdrefn wedi'i sefydlu yn y practis i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl. Argymhellwyd y dylai'r practis adolygu a diweddarau ei weithdrefn er mwyn cynnwys manylion cyswllt perthnasol timau diogelu'r awdurdod lleol ar gyfer oedolion a phlant, rhag ofn y bydd eu hangen. Cytunodd y practis i wneud hyn. Roedd yr holl staff

---

<sup>3</sup> [Mae'r Cyngor Dadebru \(DU\)](#) yn bodoli i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu.

wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion, a gwelsom dystysgrifau hyfforddi a oedd yn dangos hyn.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis adolygu ei bolisiau diogelu er mwyn sicrhau bod manylion cyswllt timau diogelu'r awdurdod lleol yn cael eu cynnwys.***

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo y gallent leisio unrhyw bryderon a oedd yn ymwneud â'r gwaith wrth uwch-staff y practis, a'u bod yn hyderus y byddai'r rhain yn derbyn sylw.

### **Gofal effeithiol**

Gwelsom fod tîm y practis yn ymroddedig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion.

Roedd y practis yn cynnal amrediad o archwiliadau i fonitro ansawdd a diogelwch y gofal a'r driniaeth a ddarperir i gleifion. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau clinigol i nodi meysydd i'w gwella a gwiriadau ar gyfarpar i sicrhau ei fod yn gweithio'n effeithiol. Cawsom ein sicrhau bod amrediad o archwiliadau yn cael eu cynnal yn y practis. Fodd bynnag, nid oedd yn glir a oedd dull systematig a oedd yn nodi pryd y byddai archwiliadau penodol yn cael eu cynnal. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis ffurfioli'r broses ar gyfer cynnal archwiliadau drwy gydol y flwyddyn. Cytunodd y practis i roi hyn ar waith.

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion deintyddol cleifion er mwyn asesu ansawdd y cofnodion. Roedd cofnodion cleifion mewn fformat electronig. Roedd y nodiadau a wnaed yn fanwl ac yn dangos bod gofal a thriniaeth wedi cael eu cynllunio er mwyn hyrwyddo diogelwch a lles cleifion. Fodd bynnag, gwelsom agweddau y gellid eu gwella er mwyn sicrhau bod pob deintydd yn cadw cofnodion o safon uchel gyson. Roeddent fel a ganlyn:

- Dywedwyd wrthym fod sgrinio am ganser yn cael ei wneud ar lafar ar gyfer pob claf, ond nid oedd yn cael ei gofnodi'n gyson ymhlith ymarferwyr.
- Roedd y gwaith o gofnodi cydsyniad llafar cleifion i driniaeth yn cael ei wneud yn anghyson.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis wneud trefniadau priodol i sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion a gwblheir ganddyn nhw yn cael eu cynnal yn unol â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.***

Yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, roedd y rhesymau dros gynnal y sganiau pelydr-X a'r hyn a ganfuwyd gan y deintyddion wedi cael eu cofnodi.

## ***Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth***

**Roedd y practis deintyddol yn cael ei reoli a'i weithredu'n effeithlon gan gydlynnydd a pherchennog y practis a thîm o staff profiadol a brwdfrydig. Dangoswyd strwythur rheoli ac iddo linellau eglur o adrodd ac atebolrwydd.**

**Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan uwch-staff y practis a'r tîm ehangach. Gwnaethant ddweud wrthym hefyd eu bod yn cael cyfleoedd i fynychu hyfforddiant perthnasol.**

Mae Practis Deintyddol Grove yn wasanaeth deintyddol sefydledig sy'n eiddo i ddau ddeintydd. Mae gan Bractis Deintyddol Grove chwaer-bractis yn Nelson, ac mae rhai aelodau o'r staff yn darparu gwasanaethau deintyddol yn y ddau bractis deintyddol. Roedd cydlynnydd practis yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd, a chanfuom fod systemau effeithiol ac effeithlon ar waith i gefnogi'r gwaith o redeg y practis. Pan nodwyd meysydd i'w gwella, dangosodd perchennog y practis a chydlynnydd y practis eu bod yn barod ac yn ymroddedig i fynd i'r afael â'r materion hyn yn ddi-oed.

Dywedodd y staff a oedd yn gweithio ar ddiwrnod ein harolygiad eu bod yn teimlo eu bod yn cael digon o gefnogaeth yn eu swyddi gan bob un o aelodau tîm y practis. Gwelsom fod y staff yn bendant ac yn wybodus ynghylch eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau. Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo bod cyfathrebu da ymhlith tîm y practis. Dangoswyd hyn yng nghofnodion y cyfarfodydd tîm, a oedd yn cael eu cofnodi'n briodol.

Gwelsom fod arlwy o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion. Gwelsom fod gan y practis broses ar waith i sicrhau bod y staff wedi darllen a deall y polisiâu.

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod staff wedi mynychu hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w swyddi. Gwnaeth y staff gadarnhau hefyd eu bod yn cael eu cefnogi a'u hannog gan y tîm rheoli i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi. Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod yr holl staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant mewn meysydd y mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn eu 'hargymell yn fawr iawn'.

Dywedwyd wrthym fod y staff yn cael arfarniadau bob blwyddyn, a gwelsom dystiolaeth o gynlluniau datblygu personol ar gyfer y flwyddyn honno i bob aelod o'r staff.

Canfuom fod deintyddion a staff nyrsio wedi eu cofrestru i ymarfer gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod yswiriant indemniad ar waith ganddynt.

Roedd cofnodion ar gael a oedd yn dangos bod y staff wedi derbyn brechiadau rhag Hepatitis B, i amddiffyn eu hiechyd eu hunain ac iechyd cleifion rhag heintiau. Roedd cyngor a chymorth iechyd galwedigaethol ar gael trwy'r bwrdd iechyd.

Roedd deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat. Roedd eu tystysgrifau cofrestru ag AGIC wedi'u harddangos fel sy'n ofynnol dan reoliadau deintyddiaeth breifat. Gwelsom dystysgrifau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y deintyddion sy'n gweithio yn y practis. Roedd y rhain wedi cael eu rhoi o fewn y tair blynedd diwethaf, fel sy'n ofynnol dan y rheoliadau.



## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a ganfuwyd ym Mhractis Deintyddol Grove, gan gynnwys graddfeydd amser.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC am y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r gwasanaeth yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal Newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal**



Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<sup>4</sup> a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.<sup>5</sup> Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)

---

<sup>4</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made>

<sup>5</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made>

2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Trafodaethau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

## Atodiad A

**Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella**

**Practis: Practis Deintyddol Grove**

**Dyddiad yr Arolygiad: 7 Mawrth 2017**

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>					
Tudalen 7	Rhaid i weithdrefn gwyno'r practis gynnwys manylion cyswllt llawn Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd) Rheoliad 16	Polisi wedi'i ddiweddarau	Louise Liston	Cwblhawyd 07/03/17
<b>Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol</b>					
Tudalen 10	Rhaid i'r practis sicrhau bod cliwiau gweledol clir yn cael eu defnyddio i ddangos bod cyfarpar pelydr-X yn cael ei ddefnyddio mewn ystafelloedd triniaeth.	Rheoliad 6 Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio	Arwyddion rhybuddio am ymbelydredd wedi eu caffael ac yn cael eu hongian dros ddrysau ystafelloedd triniaeth.	James O'Shea	Cwblhawyd 17/03/17

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Meddygol) 2000			
Tudalen 10	Dylai'r practis adolygu ei bolisiâu diogelu er mwyn sicrhau bod manylion cyswllt timau diogelu'r awdurdod lleol yn cael eu cynnwys.  <i>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Penodau 4 ac 8</i>	Safonau lechyd a Gofal, Ebrill 2015, Safon 2.7	Polisi wedi'i ddiweddarau	Louise Liston	Cwblhawyd 07/03/17
Tudalen 11	Rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis wneud trefniadau priodol er mwyn sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion sy'n cael eu cwblhau ganddynt yn cael eu cynnal yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.  <i>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safonau 3 a 4</i>	Safonau lechyd a Gofal, Ebrill 2015, Safon 3.5  Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2008 (fel y'u diwygiwyd)  Rheoliad 14	Cyfarfod wedi'i drefnu i safoni'r gwaith o gymryd cofnodion, gan ganolbwyntio ar gyfiawnhau sganiau pelydr-X, graddio ac adrodd ar fformat safonol, cofnodi'r gwiriadau rheolaidd yr ydym yn eu gwneud am ganser y geg, a chofnodi'r caniatâd a geir ar gyfer pob triniaeth a phroses.  Bydd yr agweddau hyn yn cael eu hychwanegu at yr archwiliad cadw cofnodion a drefnwyd (i'w gynnal ym mis Tachwedd 2017).	James O'Shea	31/03/2017
<b>Answadd rheolaeth ac arweinyddiaeth</b>					

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Ni nodwyd unrhyw welliannau				

### Cynrychiolydd y practis:

**Enw (llythrennau bras):** James O'Shea

**Teitl:** Dr

**Dyddiad:** 17/03/2017